**LEG-02-99(min)(w)**

# Y PWYLLGOR DEDDFAU

**COFNODION**

Dyddiad: 6 Gorffennaf 1999-07-08

Amser: 10:30am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3

**Yn bresennol:**

Michael German, Cadeirydd (Democratiaid Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru)

Nicholas Bourne (Ceidwadwyr: Canol a Gorllewin Cymru)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru)

David Rhys Lloyd (Plaid Cymru: Gorllewin De Cymru)

John Marek (Llafur: Wrecsam)

Lynne Neagle (Llafur: Tor-faen)

Owen John Thomas (Plaid Cymru: Canol De Cymru)

John Turnbull Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

Huw Evans Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

Jane Phillips Clerc y Pwyllgor

Andrew George Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

**Ymddiheuriadau:**

Huw Lewis (Llafur: Merthyr Tudful a Rhymni)

**Eitem 1: Sesiwn Hyfforddi gan Huw Evans (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)**

1. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Evans i barhau â'i gyflwyniad manwl am Rheol Sefydlog 22 – Is-ddeddfwriaeth. Defnyddiodd Mr Evans enghreifftiau o offeryn statudol drafft a luniasai ar gyfer y sesiwn hyfforddi yn ei sgwrs.

1. Codwyd pwynt am Ran Pump o Reol Sefydlog 22 sy'n ymdrin ag is-ddeddfwriaeth nad oes angen ei gwneud drwy offeryn statudol. Gallai hyn gynnwys ran sylweddol o is-ddeddfwriaeth y Cynulliad fel y'i diffinnir gan Ddeddf Dehongli 1978 gan gynnwys cylchlythyrau, cyfarwyddyd a rheoliadau.

1. Mae Rheol Sefydlog 22.51 yn darparu i'r Cynulliad benderfynu, gan gymryd i ystyriaeth pwysigrwydd cyffredinol offeryn drafft a'i natur, nad oedd yn briodol i'r drafft gael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau. Mae hyn yn golygu na fyddai'r Pwyllgor yn cael ystyried ansawdd y ddeddfwriaeth ddrafft.

1. Dangosodd Mr Evans y gallai Rheol Sefydlog 22.53 ddarparu cyfrwng i Aelodau fynegi anfodlonrwydd ag offerynnau drafft.

1. Daeth y Cadeirydd i'r casgliad y byddai er lles i'r Cynulliad petai pob darn o is-ddeddfwriaeth yn rhwym o gael ei archwilio. Gofynnodd i Mr Evans ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y berthynas rhwng y swyddogaethau sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn eu dirprwyo a Rheol Sefydlog 22.

1. Yn ogystal, gofynnodd i Mr Evans ddarparu nodyn ar gyfer y Pwyllgor ar yr ymadrodd "rhesymol ymarferol" o ran ei berthynas â hawl Cabinet y Cynulliad i benderfynu nad oes rhaid i'r Cynulliad ystyried adroddiad o'r Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â Gorchymyn drafft o dan ddarpariaethau datgymhwyso Gofynion Trefniadol (Brys) (Rheol Sefydlog 22.25).

**Eitem 2: Blaenraglen Waith**

1. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir unrhyw eitemau o is-ddeddfwriaeth ddrafft i ddod gerbron y Pwyllgor i'w hystyried cyn y Toriad. O dan yr amgylchiadau, cytunodd y Pwyllgor na fyddai raid cyfarfod ar ddydd Mawrth 13 Gorffennaf.

1. Cytunwyd i ystyried materion sy’n ymwneud ag iaith a fformat is-ddeddfwriaeth yn y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth 20 Gorffennaf am 10.30. **Bydd y Clerc yn comisiynu nodyn cefndir oddi wrth Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol er mwyn hwyluso’r drafodaeth**.

1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i’r Aelodau y byddai’r Pwyllgor yn cyfarfod bob dydd Mawrth o 10.30am i 12.00pm fel arfer. Mae hyn yn golygu y bydd y Clerc yn anelu at gyhoeddi’r agenda; papurau; a chofnodion y cyfarfod blaenorol erbyn diwedd y diwrnod gwaith ddydd Iau.

**Eitem 3: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

1. Cadarnhaodd y Pwyllgor LEG-01-99(min) ar yr amod bod cofnod y rhai oedd yn bresennol yn dangos fod Owen John Thomas yn aelod Plaid Cymru dros Ganol De Cymru a Nick Bourne yn aelod y Ceidwadwyr dros Ganol a Gorllewin Cymru.

3.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm

**LEG-02-99(min)(w)**

## Y PWYLLGOR DEDDFAU

**COFNODION**

Dyddiad: 6 Gorffennaf 1999-07-08

Amser: 10:30am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3

**Yn bresennol:**

Michael German, Cadeirydd (Democratiaid Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru)

Nicholas Bourne (Ceidwadwyr: Canol a Gorllewin Cymru)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru)

David Rhys Lloyd (Plaid Cymru: Gorllewin De Cymru)

John Marek (Llafur: Wrecsam)

Lynne Neagle (Llafur: Tor-faen)

Owen John Thomas (Plaid Cymru: Canol De Cymru)

John Turnbull Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

Huw Evans Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

Jane Phillips Clerc y Pwyllgor

Andrew George Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

**Ymddiheuriadau:**

Huw Lewis (Llafur: Merthyr Tudful a Rhymni)

**Eitem 1: Sesiwn Hyfforddi gan Huw Evans (Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol)**

1. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Evans i barhau â’i gyflwyniad manwl am Rheol Sefydlog 22 – Is-ddeddfwriaeth. Defnyddiodd Mr Evans enghreifftiau o offeryn statudol drafft a luniasai ar gyfer y sesiwn hyfforddi yn ei sgwrs.

1. Codwyd pwynt am Ran Pump o Reol Sefydlog 22 sy’n ymdrin ag is-ddeddfwriaeth nad oes angen ei gwneud drwy offeryn statudol. Gallai hyn gynnwys ran sylweddol o is-ddeddfwriaeth y Cynulliad fel y’i diffinnir gan Ddeddf Dehongli 1978 gan gynnwys cylchlythyrau, cyfarwyddyd a rheoliadau.

1. Mae Rheol Sefydlog 22.51 yn darparu i’r Cynulliad benderfynu, gan gymryd i ystyriaeth pwysigrwydd cyffredinol offeryn drafft a’i natur, nad oedd yn briodol i’r drafft gael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau. Mae hyn yn golygu na fyddai’r Pwyllgor yn cael ystyried ansawdd y ddeddfwriaeth ddrafft.

1. Dangosodd Mr Evans y gallai Rheol Sefydlog 22.53 ddarparu cyfrwng i Aelodau fynegi anfodlonrwydd ag offerynnau drafft.

1. Daeth y Cadeirydd i’r casgliad y byddai er lles i’r Cynulliad petai pob darn o is-ddeddfwriaeth yn rhwym o gael ei archwilio. Gofynnodd i Mr Evans ddarparu nodyn i’r Pwyllgor ar y berthynas rhwng y swyddogaethau sy’n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth y mae’r Cynulliad yn eu dirprwyo a Rheol Sefydlog 22.

1. Yn ogystal, gofynnodd i Mr Evans ddarparu nodyn ar gyfer y Pwyllgor ar yr ymadrodd "rhesymol ymarferol" o ran ei berthynas â hawl Cabinet y Cynulliad i benderfynu nad oes rhaid i’r Cynulliad ystyried adroddiad o’r Pwyllgor Deddfau sy’n ymwneud â Gorchymyn drafft o dan ddarpariaethau datgymhwyso Gofynion Trefniadol (Brys) (Rheol Sefydlog 22.25).

**Eitem 2: Blaenraglen Waith**

1. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir unrhyw eitemau o is-ddeddfwriaeth ddrafft i ddod gerbron y Pwyllgor i’w hystyried cyn y Toriad. O dan yr amgylchiadau, cytunodd y Pwyllgor na fyddai raid cyfarfod ar ddydd Mawrth 13 Gorffennaf.

1. Cytunwyd i ystyried materion sy’n ymwneud ag iaith a fformat is-ddeddfwriaeth yn y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth 20 Gorffennaf am 10.30. **Bydd y Clerc yn comisiynu nodyn cefndir oddi wrth Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol er mwyn hwyluso’r drafodaeth**.

1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i’r Aelodau y byddai’r Pwyllgor yn cyfarfod bob dydd Mawrth o 10.30am i 12.00pm fel arfer. Mae hyn yn golygu y bydd y Clerc yn anelu at gyhoeddi’r agenda; papurau; a chofnodion y cyfarfod blaenorol erbyn diwedd y diwrnod gwaith ddydd Iau.

**Eitem 3: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

1. Cadarnhaodd y Pwyllgor LEG-01-99(min) ar yr amod bod cofnod y rhai oedd yn bresennol yn dangos fod Owen John Thomas yn aelod Plaid Cymru dros Ganol De Cymru a Nick Bourne yn aelod y Ceidwadwyr dros Ganol a Gorllewin Cymru.

3.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm